**Tasg 2**

# Robotiaid ar ras

## Robotiaid y dyfodol

Mae robotiaid yn cael eu defnyddio ar gyfer pob math o bethau erbyn hyn.
Mewn grŵp, trafodwch:

1. Ble mae robotiaid yn cael eu defnyddio ym myd gwaith?

Pam mae robotiaid yn cael eu defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn?

Os oes angen gwybodaeth arnoch chi, chwiliwch ar y we.

2. Mae robotiaid yn cael eu defnyddio i roi cysur i rai pobl.

Chwiliwch am enghraifft ar y we.
Gwnewch nodiadau.
Mewn grŵp, siaradwch am y robot.

3. Beth, yn eich barn chi, fydd rôl robotiaid yn y dyfodol?

4. Cynlluniwch robot i gystadlu mewn cystadleuaeth Olympaidd arall.

Nodwch:

- pa gystadleuaeth
- pa fath o robot – tynnwch lun y robot a labelwch y llun; ysgrifennwch ddisgrifiad o'r robot.

5. Cynlluniwch wisg addas ar gyfer y robot hefyd.

Tynnwch lun y wisg a labelwch y llun; ysgrifennwch ddisgrifiad o'r wisg, gan ddweud pam mae'n addas ar gyfer y gystadleuaeth.